YSGOL DYFFRYN CONWY

Bwletin i Rieni - Gorffennaf 2012

DYDDIADAU PWYSIG

19 Gorffennaf - Medi 4 2012
Gwyliau'r Haf
Ysgol yn ail agor i'r disgyblion Medi 4ydd
Canlyniadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol
Dydd Iau 16/08/12 (9.00 yb - 1.00 yp)
Canlyniadau TGAU Bl 10 ac 11
Dydd Iau 23/08/12 (9.00 yb - 1.00 yp)
Medi 3 2012
HMS i staff
Medi 3 2012
Blwyddyn 12 i mewn o 12.00 o'r gloch ymlaen

Ysgol Dyffryn Conwy ar y brig!

Rhodri a Glyn Bl.12 enillwyr yr ymgom Bl 10-13
Hyfforddwyd gan Llio Japheth

Roedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn galw unwaith eto ac Ysgol Dyffryn Conwy yn cynrychioli'r rhanbarth mewn pymtheg o gystadlaethau. Maes mwdlyd a gwlyb oedd yn ein croesawu yng Nglynllifon ac roedd y rhagolygon yn big, serch hynny ni lwyddodd hynny i ladd ysbryd y disgyblion wrth i'r misoedd o ymarfer cyrraedd penllanw yn y perfformiadau terfynol yn erbyn goreuon Cymru.

Yn ystod yr wythnos, bu oddeutu 100 o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn amrywiaeth o gystadlaethau ac roedd y perfformiadau yn safonol tu hwnt ac i'w llongyfarch yn frwd. Bu i'r misoedd o waith caled ac ymroddiad gan ddisgyblion a staff dalu ar ei ganfed wrth i Gôr Cerdd Dant Bl.13 ac iau a'r ymgom Bl.10-13 gyrraedd y brig. Roedd hyn yn gamp arbennig gyda nifer helaeth o'r aelodau yng nghanol cyfnod prysur TGAU a Safon Uwch. Llwyddodd y tîm Siarad Cyhoeddus i gael 3ydd a pherfformiodd Joshua Bradnam-Smith yn wych ar y ffidil gan sicrhau'r 3ydd safle yn yr Unawd Llinynnol Bl.7-9. Yn ôl y beirniaid, roedd nifer o gorau , partïon ac unigolion eraill o fewn trwch blewyn i'r llwyfan. Mwynhaodd ddisgyblion o'r ysgol lwyddiant fel aelodau o ganghennau lleol yr Urdd hefyd. Sicrhaodd Cadi Edwards, disgybl Bl.7, a'i brawd Sion, y wobr gyntaf yn y ddeuawd Cerdd Dant Bl.9 ac iau yn cynrychioli Aelwyd Llanrwst a daeth Erin Rossington, disgybl Bl 11, yn 3ydd yn yr Unawd Merched Bl.10-13 yn cynrychioli Aelwyd Bro Cernyw. Roedd nifer o ddisgyblion hefyd yn aelodau o gystadlaethau llwyddiannus Aelwyd Llangwm ac Aelwyd Bro Cernyw ar ddiwrnod olaf y cystadlu.

Erbyn nos Wener, roedd yr holl fwd a glaw yn angof a llwyddiannau, brwdfrydedd ac ysbryd aelodau Urdd Ysgol Dyffryn Conwy yn aros yn y cof. Go dda pob un ohonoch!

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy

Wedi bwrlwm Eisteddfod yr Urdd, bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cefnogi a chystadlu yn yr eisteddfod leol ar Fehefin 23ain. Daeth nifer o wobrau i ddisgyblion yr ysgol ac enillodd Gôr Merched Ysgol Dyffryn Conwy y brif gystadleuaeth gorawl ar y nos Sadwrn dan arweiniad Andrea Parry.

Cafwyd cymanfa ganu arbennig ar y nos Sul gydag eitemau gan gorau a phartïon iau yr ysgol dan arweiniad Angharad Ellis a Chris Roberts. 'Roedd hi'n benwythnos pwysig i'r Pennaeth hefyd ac yntau'n Llywydd Cyfarfod yr Hwyr.

Côr Cerdd Dant Bl.13 ac iau buddugol. Hyfforddwyd gan Andrea Parry gyda gosodiad gan Rhian Jones

Rhai o adelodau'r Côr buddugol yn Eisteddfod Dyffryn Conwy

Rachel ar lwyfan y byd!

Eistedd arholiad lefel A yn y bore, gyrru i Firmingham yn y pnawn ac yna rhedeg mewn ras 100m ar gyfer treialon y Gemau Olympaidd amser te!! *All in a day's work* yn ôl chwedl y Sais! Ond dyma oedd amserlen Rachel Johncock, disgybl Blwyddyn 13 Ysgol Dyffryn Conwy, ar ddydd Gwener, Mehefin 22ain! Rydym i gyd yn edmygu camp, talent ac ymroddiad Rachel ym myd athletau wrth ddilyn ei gyrfa gyda diddordeb a hithau hefyd yn disgleirio'n academaidd fel disgybl yn Ysgol Dyffryn Conwy. Ond cyrhaeddodd y blynyddoedd o ymdrech, a dyfalbarhad benllanw (hyd yn hyn) yn ystod y pythefnos diwethaf gyda pherfformiadau anhygoel yn y 100m a agorodd ddrysau a chyfleoedd arbennig.

Ym mhencampwriaethau Lloegr ym Medford ar Fehefin 16eg, sicrhaodd y fedal efydd yn y 100m dan 20 oed gan osod PB o 11.61 gan ei rhoi o fewn amser gofynnol Pencampwriaethau'r byd. Gosododd hyn Rachel yn 5ed yn Ewrop dan 20 a 13eg merched pob oedran Prydain Fawr yn ogystal â thorri record Cymru dan 20 oed a oedd yn sefyll ers 27 mlynedd! Felly, roedd hi'n gyfnod croesi bysedd y byddai hi'n cael ei dewis i gynrychioli Prydain Fawr.

Cryfhawyd ei chais ymhellach gyda pherfformiadau cyson yn y treialon Olympaidd ym Mirmingham gan sicrhau ei lle yn rownd gynderfynol y 100m i ferched o bob oed. Llwyddodd i gael 6ed yn ei ras a 11eg yn gyffredinol gydag amser o 11.85. Dyma brofiad anhygoel i ferch ddeunaw oed yng nghanol sêr presennol athletau Prydain Fawr.

I goroni'r cyfan daeth y newyddion hir disgwyliedig a haeddiannol bod Rachel wedi cael ei dewis i redeg y 100m unigol a'r 4 x 100m ym Mhencampwriaethau Iau'r Byd ym Marcelona, Gorffennaf 10fed - 15fed eleni yn cynrychioli Tîm Prydain Fawr. LLONGYFARCHIADAU ENFAWR - mae pawb ohonom yn yr ysgol yn gytûn ei bod yn haeddu pob llwyddiant posibl, nid yn unig oherwydd ei dawn anhygoel ond yn ogystal oherwydd ei hysbryd a'i phersonoliaeth arbennig. Mwynha pob eiliad ym Marcelona Rachel a phob dymuniad da i'r dyfodol. *Role model* i ddisgyblion yr ysgol os bu un erioed!

Rachel Johncock

OLYMPWYR Y DYFODOL?

Yn ystod y flwyddyn aeth Ioan Hughes ac athletwyr addawol yr ysgol i glwb yn wythnosol a gwelwyd yr ymarfer yn dwyn ffrwyth yn y mabolgampau sirol ac mewn cystadlaethau eraill

Ym Manceinion ar Fehefin 19eg daeth Iestyn Thomas Bl.10 yn fuddugol ar y 100m mewn amser o 12.16 ac Arthur Lennon yntau'n fuddugol ar y 100 m gydag amser o 12.36. Llwyddodd Elin Jones,Bl.10 i sicrhau'r 4ydd safle yn y naid hir gyda naid gorau o 4.56m.

Yn NASUWT y sir sef cystadleuaeth timau Bl 8 a 10, llwyddodd tîm merched Bl.8 i sicrhau eu lle yn Eryri a gwneud cyfrif da ohonynt eu hunain gyda pherfformiadau arbennig gan Mared Williams yn 1af yn y naid hir ac 2il yn yr 800m a Leusa Ellis yn 2il yn y clwydi. Go dda chi ferched.

Ym Mhencampwriaeth Athletau unigol y sir llwyddodd disgyblion yr ysgol i sicrhau bod llond bws mini wedi eu dewis i gynrychioli Conwy yn Eryri ac yn ogystal daeth yr ysgol yn ail o ran marciau trwy holl ysgolion Conwy.

Llongyfarchiadau arbennig i dri disgybl fydd yn cynrychioli Eryri a'r ysgol mewn pum cystadleuaeth ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru yn Aberhonddu ar Orffennaf y 5ed. Bydd Elin Jones Bl.10 yn cystadlu ar y naid hir a'r naid driphlyg, Abi Backshall Bl.10 ar y 300m a'r 800m a Mathew Mullender Bl.13 ar y naid hir. Pob dymuniad da i chi

PEDWAR Disgybl Ysgol Dyffryn Conwy wedi'i dewis i dîm Criced dan 14 Eryri

Llongyfarchiadau i: Jac Hughes, Aron Hughes, Adam Thomas ac Emyr Court.

Ar 18 Ebrill roedd 100 diwrnod i fynd tan seremoni agoriadol Llundain 2012. I ddathlu'r garreg filltir hon bu i dîm PIE Conwy wahodd bob ysgol yn y sir i gymryd rhan mewn o leiaf un awr o chwaraeon gyda'r nod o gynnal 100 awr o chwaraeon yng Nghonwy. Bu i rai ysgolion gynnig chwaraeon traddodiadol, eraill yn cynnig gemau unigol neu gemau tîm, tra bo eraill wedi meddwl am ffyrdd arloesol o fod yn actif e.e. 100 pas rygbi, cadw pêl-droed i fyny 100 o weithiau a saethu at gôl pêl-rwyd 100 o weithiau.

Yn ysgol Dyffryn Conwy defnyddiwyd y thema Olympaidd i drefnu sesiwn athletau dan do i ddisgyblion bl 7. Trefnwyd y gweithgareddau ar y cyd rhwng yr adran addysg gorfforol, llysgenhadon ifanc yr ysgol sef Emily Watson (Arian) ac Ynyr Jones (Arian) a Rachel Johncock (Aur) a'r cynlyn 5x60. Roedd hyn yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'r Gemau Olympaidd ac fe gafwyd prynhawn hwyliog.

Eco Sgolion

Sefydlwyd Pwyllgor Eco yn ystod tymor yr haf gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion Bl.7-10. Trefnwyd holiadur cynhwysfawr i ddisgyblion yr ysgol ac aed ati i ddadansoddi'r canlyniadau. Rydym am ganolbwyntio ar leihau sbwriel, cynyddu ail gylchu a hefyd lleihau defnydd o ynni ac wedi cynhyrchu cynllun gweithredu.

Eco-Sgolion

Mae'r disgyblion wedi edrych ar leoliadau biniau sbwriel ac ail gylchu'r ysgol ac wedi cwblhau arolwg sbwriel. Yn dilyn yr ymdrechion hyn rydym yn hynod falch o allu cyhoeddi ein bod wedi ennill y Wobr Efydd Eco Ysgolion.

Ymlaen rŵan i'r wobr arian.

Seren y Sgrin

Yn dilyn rhagbrofion drwy Yr Academi, Llanrwst daeth y newydd da bod Cora Miri Roberts 7 Garmon wedi bod yn llwyddiannus a chael rhan mewn ffilm fer a fydd yn cael ei ffilmio yn Nebo ar gychwyn mis Awst. Llongyfarchiadau mawr i ti Cora. Edrychwn ymlaen at y *premiere*!

YMWELIAD BLWYDDYN 6

Ar ddydd Llun, Mehefin 25ain daeth disgyblion Blwyddyn 6 cynradd i ymweld ag Ysgol Dyffryn Conwy. Bu'r diwrnod yn un llwyddiannus iawn, gyda phob disgybl i'w weld yn cael hwyl ac yn mwynhau eu hunain.

Yn ystod y diwrnod, bu iddynt gael y cyfle i flasu pump o wersi - Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth, Mathemateg, Technoleg a Ffrangeg, a chafwyd perfformiad egnïol gan gân actol Bl.7-9 i gloi'r diwrnod cyn iddynt ddychwelyd yn ôl at y bysus ar ddiwedd y dydd. Roedd hi'n gyfle hefyd iddynt gyfarfod Miss Angharad Ellis, Pennaeth Bl.7 dros gyfnod mamolaeth Mrs Gwenno Watson.

Rydym yn edrych ymlaen yn arw i groesawu blwyddyn chwech yma'n barhaol ym Mis Medi.

Ffarwelio am gyfnod a chroesawu'n ôl!

Dymuniadau gorau i Mrs Gwenno Watson a Mrs Elen Williams sydd wedi cychwyn eu cyfnod mamolaeth yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at gael clywed eu newyddion yn fuan! Yn yr un modd, croeso'n ôl i Mrs Catrin Jones, Mrs Buddug Williams a Mrs Glesni Williams sy'n dychwelyd ar ôl cyfnod mamolaeth.